# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU DYDD IAU, 17 MEHEFIN 2021

**Presenoldeb:**

Cynghorwyr: Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts
Is gadeirydd: Cynghorydd Medwyn Hughes

Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Sïon Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson ac Angela Russell

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan ( Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Siân Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) Eleri Williams (Arweinydd Tîm Gwefan) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled Ll Evans, Peredur Jenkins a Gethin Glyn Williams

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. PROSIECT HUNANWASANAETH Y WEFAN GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor, yn dilyn trafodaeth yn y Gweithgor Craffu (10/05/21), yn amlinellu'r ymdrechion a fu ers 2016 i gynyddu'r ddarpariaeth ryngweithiol ar y wefan i geisio sicrhau bod modd cysylltu yn rhwydd gyda'r Cyngor 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Nodwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r gwasanaeth sy'n gadarnhaol ac yn cadarnhau gwerth y buddsoddiad. Ategwyd bod y gwasanaeth yn parhau i

ddatblygu a chydweithio gyda Gwasanaethau ac yn ymgynghori gydag Awdurdodau eraill i geisio gwella'r ddarpariaeth. Nodwyd posibilrwydd o sefydlu swyddfa wrth gefn i gefnogi'r ddarpariaeth, ac er nad yw'r prosiect ei hun yn gallu hawlio arbedion uniongyrchol, mae wedi cynorthwyo i greu arbedion mewn Gwasanaethu ee. Galw Gwynedd i arbed £23,000 trwy ddatblygu system fewnol.

Amlygwyd bod y pandemig wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau ar-lein mewn meysydd lle nad oedd rhai yn bodoli yn flaenorol a hynny wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau am y gwasanaethau ar-lein yn gyffredinol. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau i'r dyfodol oedd yn cynnwys sefydlu sgwrs fyw, rhannu manylion mynediad ysgolion, ffurflenni morwrol ynghyd a cheisiadau pellach i gyflwyno, e.e., rhestr aros Tai, cyfarpar ailgylchu, slotiau i ymgymerwyr mewn amlosgfa, ceisiadau rhieni maeth. Ystyriwyd bod hyn i'w groesawu ac yn gosod her arall o flaenoriaethu'r holl geisiadau mewn modd sydd yn dod â budd i'n cwsmeriaid a'r gwasanaethau dan sylw.

Ategodd yr Aelod Cabinet fod y Cabinet yn llwyr gefnogol i'r prosiect ac yn ymfalchïo yn y gwaith da sydd yn cael ei wneud. Nododd bod y dewis i ddefnyddio technoleg i gysylltu 24awr yn fanteisiol a bod Gwynedd yn torri tir newydd drwy gynnig y gwasanaeth yn ddwyieithog.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y gwasanaeth yn gwneud gwaith gwych – yn sicr y ffordd ymlaen
- Bod dyfalbarhad a brwdfrydedd y Tîm i'w longyfarch
- Bod angen adolygu'r camau 'tynnu sylw at dyllau yn y ffordd' – rhy gymhleth
- Bod angen sicrhau profiad da os am gyflwyno 'sgwrs ar lein' - rhaid sicrhau bod staff wrth gefn gyda gwybodaeth gyfredol ac ystyried yn ofalus pa Wasanaethau sydd yn addas i'w cynnig. Angen osgoi sefyllfa rwystredig ac amhersonol i'r cwsmer.
- Angen sicrhau bod cod post Powys yn cael ei dderbyn yn 'Lle Dwi'n Byw' - rhai o'r codau post hyn yn berthnasol i drigolion Gwynedd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymateb i adborth gwael ac os oedd patrymau i'r sylwadau hynny, nodwyd pe byddai'r mater yn un technegol bydd Tîm y Wefan yn ymdrin â'r mater gyda chefnogaeth y Gwasanaeth TG. Os mai un o Wasanaethau eraill y Cyngor sydd yn derbyn adborth gwael, yna mae'r ymateb yn debygol o amrywio o Wasanaeth i Wasanaeth, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i sicrhau ymateb. O safbwynt patrwm i sylwadau, nodwyd bod y Tîm Prosiect yn edrych ar feddalwedd dadansoddi i ymgymryd â'r gwaith yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amserlen ymateb i sylwadau, nodwyd y byddai'r Tîm Prosiect yn gweithio gyda'r Gwasanaethau i gytuno ar amserlen gan fynnu bod cyfnod ymateb yn cael ei osod er mwyn sicrhau rheolaeth o'r sefyllfa

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwblhau cais ar ran rhywun arall ac o ganlyniad yn gorfod cyflwyno manylion banc personol, tynnwyd sylw bod llinell bwrpasol i gynnwys cyfeiriad gwahanol, ond bod cais am fanylion banc yn parhau. Cytunwyd i edrych i mewn i hyn.

Mewn ymateb i bryder bod y gwasanaeth ar-lein yn peryglu swyddi yng Ngalw Gwynedd, nodwyd, er bod y gwasanaeth wedi arbed £23,000 i Galw Gwynedd, nid oedd wedi arwain at unrhyw ddiswyddiadau. Ategwyd mai arbediad mewn

amser gweinyddol oedd y fantais fwyaf drwy ryddhau amser i gyflawni gwaith arall megis cyfeirio adnodd i 'sgwrs'. Ategwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda staff Galw Gwynedd a'u bod yn ymrwymedig i'r prosiect.

Mewn ymateb i awgrym y gellid cynnig y gwasanaeth i sectorau ehangach, mynegwyd bod y posibilrwydd yn ddymunol ond yn gynamserol - angen datblygu'r safon cyn rhannu ymhellach.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

## 5. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21

Cymerodd yr Aelod Cabinet Cyllid y cyfle i ddiolch i staff yr Adran Cyllid am eu hymroddiad i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon (drafft) y Cyngor wedi eu cyflwyno i Archwilio Cymru sef yr archwilwyr allanol, cyn y dyddiad statudol (31 Mai 2021). Ategodd y Pennaeth Cyllid ei ddiolch i'r staff am gyflawni'r gwaith gan ymateb i amserlen statudol heriol newydd, ynghanol argyfwng Covid19. Diolchwyd hefyd i'r Gwasanaeth TG am alluogi datblygiadau gweithio o adre. Nododd ei fod eisoes wedi ardystio'r cyfrifon drafft ac mai ymarfer da fyddai rhannu'r cyfrifon gyda'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i holi / cyflwyno sylwadau. Bydd y cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu cymeradwyo 14/10/21.

O ran y Prif Ddatganiadau a'r Nodiadau, eglurwyd bod y Datganiad wedi ei gwblhau ar ffurf safonol CIPFA. Ymddengys yn drwsgl a thechnegol gymhleth ac amlygwyd bod y ffigyrau pensiwn yn dueddol o ystumio'r ffigyrau. I ddeall y sefyllfa ychydig yn well cyfeiriwyd at y wybodaeth yn Nodyn 38. Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod ef, ynghyd a Thrysoryddion eraill ar draws y DU, yn cynnal trafodaethau gyda CIPFA i geisio dwyn perswâd arnynt i ddiddymu'r ffigyrau pensiwn sydd yn arwain at gam argraff ar rai agweddau yn y Datganiad.

Ategodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod chwe set o gyfrifon wedi eu cwblhau ond nad oedd modd iddynt gael eu harchwilio a'u cymeradwyo tan dymor yr Hydref, gan fod angen sicrhau bod hawliau'r cyhoedd yn weithredol. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Naratif oedd yn rhoi gwybodaeth am y Cyfrifon ac am weledigaeth a blaenoriaethau Gwynedd, y Strategaeth Ariannol a'r mesuryddion perfformiad ariannol. Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar rai o'r elfennau:

- Datganiad Symudiad mewn Reserfau (tud 22 o'r rhaglen) sydd yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor am 2020/21 - tynnwyd sylw at y colofnau gwybodaeth ychwanegol:
  - colofn 1: balansau cyffredinol y Cyngor wedi cynyddu £1.8 miliwn yn ystod y flwyddyn, £7.5 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £9.4 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021
  - colofn 2: yn cyfeirio at gynnydd o £20 miliwn yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd, £59 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £79 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021
  - colofn 3 - balansau Ysgolion - cynnydd o £6.4 miliwn o £4.3 miliwn ar ddiwedd Mawrth 2020 i £10.8 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2021.

  Amlygwyd mai'r prif resymau dros y cynnydd oedd derbyniad grantiau amrywiol sylweddol.

- Trefniadau newydd ar gyfer eleni, ar y cyd gyda Chynghorau eraill yn ymwneud â Covid (tudalen 94) gan gynnwys Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfrifon (drafft) yn amodol ar Archwiliad gydag adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru) ynghyd a chyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu cymeradwyo 14/10/21.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â grantiau yn cael eu derbyn at ddibenion pwrpasol ac o ganlyniad yn gogwyddo'r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod rhai o'r grantiau ar gyfer pwrpas penodol ond bod nifer yn rai sydd heb bwrpas penodol ac o ganlyniad wedi eu gosod yng Nghronfa Trawsffurfio'r Cyngor a Chronfa Adfer Covid. Bydd cyfle yn unol â'r drefn arferol i gyflwyno ceisiadau am yr arian.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol a'r archwiliad) ar gyfer 2020 / 21**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2020/21, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 5/3/20. Nodwyd bod gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, a derbyniwyd £422,000 o log ar fuddsoddiadau a oedd yn uwch na'r £400,000 yn y gyllideb. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un heriol gyda chyfraddau llog yn gostwng, cyfyngiadau ar ble i fuddsoddi arian ynghyd a symiau sylweddol yn cael eu prosesu gyda'r Cyngor yn gweinyddu dros £100 miliwn o grantiau Covid 19 i fusnesau. Er hynny, roedd y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau bod y buddsoddiadau yn ddiogel ac wedi cyrraedd y targed incwm buddsoddi.

Tynnwyd sylw at y fantolen ynghyd a manylder y gweithgareddau benthyca gan amlygu bod y benthyciadau wedi parhau o fewn y strategaeth o gadw'r costau benthyca yn isel. Ni wnaethpwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir yn y flwyddyn ac ni wnaed llawer o ddefnydd o fenthyciadau tymor byr oherwydd bod lefelau'r arian wedi bod yn uchel o gymharu â diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf lle cymerwyd benthyciadau tymor byr oherwydd ansicrwydd sefyllfa Covid 19.

Adroddwyd, yng nghyd-destun buddsoddiadau, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau, Cronfeydd Marchnad Arian, a Chronfeydd wedi'i pwlio, ond bod cynnydd mewn defnyddio Awdurdodau Lleol gan fod y cyfleoedd gyda'r banciau a'r sefydliadau tebyg yn gyfyngedig iawn, a chyfraddau marchnad arian yn isel iawn. Ategwyd bod y dychweliadau wedi bod yn isel iawn, ond bod y cronfeydd wedi'i pwlio wedi achub y sefyllfa gan eu bod wedi bownsio yn ôl ar ôl cwymp diwedd flwyddyn ariannol 2019/20. Amlygwyd bod gwerth y buddsoddiadau wedi codi £0.6 miliwn yn y flwyddyn, gyda chyfradd 5.13% wedi cyfrannu at yr incwm llog gan sicrhau nad oedd

diffyg yn erbyn y gyllideb.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfiad a dangosyddion adroddwyd bod cydymffurfio llawn wedi digwydd ar wahân i'r datguddiad cyfraddau llog. Amlygwyd bod y datguddiad yma yna dangos effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog gan amlygu effaith difrifol y mae'r pandemig wedi ei gael ar enillion buddsoddiadau o gymharu ar hyn a ragwelwyd ddechrau Mawrth 2020 pan osodwyd lefel y cyfyngiad - cyn pandemig Covid 19. Ategwyd bod dychweliadau ar y cronfeydd wedi'i pwlio wedi adfer y gollyngiad llog.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Er balchder o dderbyn grantiau, Cyngor Gwynedd wedi gwneud y penderfyniad o ddefnyddio eu cyllid fel bod effeithiau covid 19 ar drigolion Cyngor yn lleihau
- Bod angen cywiro tabl Crynodeb Rheolaeth Trysorlys (tud 100 o'r rhaglen) i amlygu £'000 yn lle £m

Mewn ymateb i sylw yn yr adroddiad 'bod hyd buddsoddiad a nifer y sefydliadau sydd i adneuo arian gyda nhw wedi ei leihau yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd gan Arlingclose', ac os mai dirywiad y gyfradd credyd oedd yn gyfrifol neu'r cyngor a dderbyniwyd, adroddwyd bod y penderfyniad i ddiogelu'r buddsoddiadau yn gyfuniad o'r ddwy elfen a bod angen cymryd agwedd gofalus. Mewn ymateb i gwestiwn ategol o ran lleihad sylweddol yn y sefydliadau, amlygwyd bod sefydliadau tramor wedi cwtogi ynghyd a gostyngiadau o 90 diwrnod i 35 gan fanciau. Pwysleisiwyd mai prif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi oedd ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau - trwy fuddsoddi yn ddarbodus bydd sylw yn cael ei roi ar ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am gyfraddau uwch o ddychweliadau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 7. TREFNIADAU GWRTH DWYLL, GWRTH LYGREDIGAETH A GWRTH LWGRWOBRWYO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) yn diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau atal twyll ac atal llygredd y Cyngor ynghyd a chynnydd ar raglen Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrthlygredd a Gwrth Lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd 2019 - 2022 a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor 14 /02/2019. Nodwyd bod y Strategaeth yn cynnwys wyth o weithrediadau y dylid eu cyflwyno yn ystod y tair blynedd er mwyn cryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ategwyd y byddai gwaith yn dechrau dros yr Haf ar lunio rhaglen waith ar gyfer 2022/25.

Amlygwyd nad oedd swyddogion y Cyngor yn ymchwilio i honiadau o dwyll yn ei erbyn ar hyn o bryd.

Adroddwyd nad oedd gweithdai penodol wedi eu cynnal i adnabod risgiau newydd, ond bod Rheolwr Archwilio Mewnol wedi cyfarfod gyda phob Pennaeth Adran i drafod agweddau o risg fyddai angen eu cynnwys yng

Nghynllun Archwilio Mewnol 2021/22.

Un elfen na ellid gweithredu arni oherwydd sefyllfa barhaus y pandemig oedd cynnal cyfweliadau twyll yn erbyn y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor, a fyddai'n arwain at gosb weinyddol neu erlyniad yn yr achosion mwyaf difrifol. Er ceisio cynllunio camau pellach nid yw'r sefyllfa eleni wedi caniatáu datblygiadau yn y maes yma.

Tynnwyd sylw at y Fenter Twyll Cenedlaethol (NFI) sydd yn cynnal ymarfer paru data sydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod ac atal twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus. Bydd y gwaith paru data yn cael ei wneud bob dwy flynedd gydag ymarferiad llawn yn digwydd yn fuan. Mae data eisoes wedi ei ddarparu i Archwilio Cymru er mwyn iddynt gyflawni'r gwaith ac mae canlyniadau'r gwaith hwnnw yn dechrau cael ei wirio gan Archwilio Mewnol (sydd wedi clustnodi 40 diwrnod ar gyfer cyflawni'r dasg yng nghynllun 2021/22). Bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar y gwaith ac unrhyw achosion sydd yn dod i'r amlwg wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Ategwyd bod y Fenter Twyll Cenedlaethol hefyd yn gymorth i adolygu'r taliadau grantiau a wnaed i Fusnesau Gwynedd yn ystod y cyfnodau clo. Bu 5 cynllun grant yn ystod 2020/21 a dosbarthwyd dros £106m o arian grant. Nodwyd bod arwyddion cynnar yn awgrymu nad oes ceisiadau twyllodrus wedi dod i'r amlwg trwy'r ymarferiad NFI a bod hyn yn cadarnhau bod trefniadau cadarn yn eu lle o fewn y Gwasanaeth Trethi oedd yn gweinyddu'r grantiau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y wybodaeth fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn y maes gwrth-dwyll a gwrthlygredd**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

**CADEIRYDD**